

CYPE(5)-24-19 - Papur i'w nodi 16

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales

Children, Young People and Education Committee

Cyfarwyddwr Cyllid

6 Awst 2018

Annwyl Gyfaill,


Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21

Bob blwyddyn mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o'n craffu ar Gyllideb Ddrafft 2020-21, un o'r meysydd y byddwn yn canolbwyntio arno fydd cyllid ar gyfer iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru.

I lywio ein gwaith craffu ar Lywodraeth Cymru, byddem yn ddiolchgar o dderbyn gwybodaeth ysgrifenedig mewn perthynas â'r pwyntiau a restrir yn yr atodiad i'r llythyr hwn gan eich Bwrdd Iechyd. Gofynnwn i ni anfon y wybodaeth hon atom erbyn **dydd Llun 7 Hydref 2019**.

Yn gywir,



Lynne Neagle AC
Cadeirydd



Atodiad

Gwariant/dyraniadau'r Bwrdd Iechyd

Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor gyda'i waith craffu parhaus ar Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc, byddem yn croesawu cael y canlynol:

- Gwybodaeth am wariant Byrddau Iechyd unigol ar wasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yng Nghymru am bob un o'r pum mlynedd diwethaf, gan gynnwys pa ganran o gyfanswm cyllideb y BILL y mae hyn yn ei chynrychioli, ac yn nhermau arian parod, sut mae hyn yn cymharu â lefel y gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl oedolion. Hefyd, beth yw'r gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc fesul plentyn ar gyfer pob Bwrdd Iechyd unigol.
- Gwybodaeth am wariant Byrddau Iechyd unigol ym mhob un o'r gwasanaethau canlynol mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, gan gynnwys gwariant ar gyfer pob un o'r pum mlynedd diwethaf (alldro a gwariant a ragwelir yn y dyfodol) ar:
 - Gwasanaethau niwroddatblygiadol
 - Gofal argyfwng a gofal y tu allan i oriau CAMHS
 - Therapiau seicolegol
 - Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol (LPMHSS)
 - Darpariaeth cleifion mewnol / datblygu gwasanaeth
- Gwybodaeth am wariant unigol Byrddau Iechyd a darparu gwasanaethau iechyd meddwl plant lefel isel; yr heriau cyllido i Fyrddau Iechyd o ran canolbwyntio ar atal a sut caiff y rhain eu goresgyn drwy arloesi mewn gwasanaethau; a manylion am unrhyw drawsnewid, a/neu gyllid ychwanegol arall y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i sicrhau mewn perthynas â darparu gwasanaethau iechyd meddwl plant lefel isel.
- Unrhyw faterion penodol o fewn Byrddau Iechyd unigol mewn perthynas ag arferion recriwtio a chadw staff gwael sy'n cael effaith ar wariant ar wasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, yn benodol, ar gyfer pob un o'r pum mlynedd diwethaf, gwariant gwirioneddol ar staff asiantaeth (alldro a gwariant a ragwelir ar gyfer 2020-21).
- Unrhyw sylwadau penodol yr hoffai Byrddau Iechyd unigol eu gwneud ynglŷn â sut mae cyllid rheolaidd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, ynghyd â chyllid gwella CAMHS ychwanegol, yn cael eu dyrannu i Fyrddau Iechyd a sut mae Llywodraeth Cymru yn olrhain gwariant, gan gynnwys manylion am sut gall Byrddau Iechyd ddangos tystiolaeth bod y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i annog gwelliannau mewn gwasanaethau Iechyd meddwl i blant a phobl ifanc.
 - Ar gyfer Byrddau Iechyd unigol, manylion perfformiad amseroedd aros ar gyfer apwyntiad cyntaf a dechrau triniaeth
 - Ar gyfer Byrddau Iechyd unigol, manylion am y galw am wasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, a nifer a chanran yr atgyfeiriadau a dderbynnir i driniaeth.

